O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1913 (Cy. 282)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd i Abergwaun, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym* | *19 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Hydref 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd i Abergwaun, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 19 Hydref 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Hwlffordd ac Abergwaun yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Withybush, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2006**(3)**, Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Scleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2004**(4)**, Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Treletert, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2002**(5)** a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Hwlffordd, Dyfed) (Dileu Cyfyngiadau) 1994**(6)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Hydref 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2006/1740 (Cy.180)
**(4)** O.S. 2004/2597 (Cy.231)
**(5)** O.S. 2002/2745 (Cy.261)
**(6)** O.S. 1994/1745

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 117 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Scotchwell hyd at bwynt 116 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Llwynhelyg, Hwlffordd, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Ffordd Aberteifi.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Llwynhelyg, Hwlffordd i'w chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Rudbaxton.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Drefgarn hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r de o Gas-blaidd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r gogledd o Gas-blaidd hyd at bwynt 233 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4331.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 217 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r B4331 hyd at bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Manorowen, Abergwaun.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd hyd at bwynt 117 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Llwynhelyg, Hwlffordd hyd at bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r de o Gas-blaidd hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r gogledd o Gas-blaidd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 233 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4331 hyd at bwynt 217 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Manorowen, Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.